# Monitro

*CYNLLUN RHEOLI CARBON*

## *SUT FONITRO*

Er mwyn i ni ddeall faint o ynni mae ein adeilad yn ei ddefnyddio, rhaid i ni fesur ein defnydd ynni.

Bydd gan rai safleoedd declyn yn cofnodi defnydd ynni ar fesuryddion bob hanner awr, sydd yn golygu fod ganddynt ddata cywir a chyflawn i ddechrau monitro. Mae'n bwysig fod safleoedd yn cofnodi darlleniadau y mesuryddion yn fisol o leiaf, i gael data digon da i fonitro.

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd y Cyngor gyda mynediad i system fonitro 'Systems Link', sydd yn creu graffiau i fonitro ar glic botwm, ar yr amod fod darlleniadau misol yn cael eu mewnbynnu i'r system.

Cysylltwch a'r uned cadwraeth ynni er mwyn cael eich manylion i fewngofnodi i'r system hwn.

Defnyddiwch y system monitro er mwyn adnabod unrhyw gynnydd mewn defnydd t rydan neu  danwydd cyn gynted a phosib, fel eich bod yn gallu darganfod y rheswm am y cynnydd yma.

Gall hyn fod oherwydd offer wedi malu, neu rywbeth wedi ei raglennu i ddod ymlaen ganol nos a neb yn ymwybodol o hynny, neu, gall fod oherwydd cynnydd yn nefnydd yr adeilad ayb.

Os nad ydym yn monitro yn gyson, yna gall fod yn flwyddyn neu fwy cyn i chi ddarganfod hyn.

**Monitro**
Dros amser, fe fydd gennych ddigon o ddata i greu graffiau os ydych yn dymuno.

Mae hyn yn ei wneud yn haws i ni fonitro ein defnydd o drydan gan ei fod yn fwy ‘gweledol’.

Dyma enghraifft:




Electricity

| Month | 2015-16 | 2014-15 | Variation | |
|---|---|---|---|---|
| | kWh | kWh | kWh | % |
| Jun | 6,629 | 12,571 | -5,942 | -47 |
| Jul | 2,105 | 13,007 | -10,902 | -84 |
| Aug | 7,196 | 3,158 | 4,038 | 128 |
| Sep | 11,437 | 11,848 | -411 | -3 |
| Oct | 14,334 | 13,599 | 735 | 5 |
| Nov | 8,405 | 16,096 | -7,691 | -48 |
| Dec | 5,104 | 13,874 | -8,770 | -63 |
| Jan | 14,567 | 17,021 | -2,454 | -14 |
| Feb | 10,385 | 13,430 | -3,045 | -23 |
| Mar | 6,524 | 13,107 | -6,583 | -50 |
| Apr | 13,407 | 11,890 | 1,517 | 13 |
| May | 11,260 | 13,972 | -2,712 | -19 |
| Total | 111,353 | 153,573 | -42,220 | -27 |

Gas

| Month | 2015-16 | 2014-15 | Variation | |
|---|---|---|---|---|
| | kWh | kWh | kWh | % |
| Jun | 8,066 | 6,667 | 1,399 | 21 |
| Jul | 10,591 | 5,564 | 5,027 | 90 |
| Aug | 12,035 | 1,922 | 10,113 | 526 |
| Sep | 21,493 | 7,034 | 14,459 | 206 |
| Oct | 33,291 | 27,689 | 5,602 | 20 |
| Nov | 49,150 | 52,851 | -3,701 | -7 |
| Dec | 24,273 | 68,550 | -44,277 | -65 |
| Jan | 67,549 | 84,282 | -16,733 | -20 |
| Feb | 68,146 | 83,110 | -14,964 | -18 |
| Mar | 65,259 | 72,563 | -7,304 | -10 |
| Apr | 47,429 | 42,576 | 4,853 | 11 |
| May | 1,563 | 21,610 | -20,047 | -93 |
| Total | 408,845 | 474,418 | -65,573 | -14 |